**Cofnodion Gweithgor y Llyfrgell**

**a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2024 yn Hwb Rhuddlan**

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd Mike Kermode (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Val Simmons (Maer)
Mathew Baker (Llyfrgelloedd CSDd)
Richard Polden (Cymdeithas Hanes Lleol Rhuddlan)
Steve Wilson – (Clerc y Dref)

**1. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Mike Elgin a Deborah Owen (Prif Lyfrgellydd CSDd)

**2. Datgan buddiant**
Dim

**3. Penodi Cadeirydd**
Cynigiodd y Cynghorydd Val Simmons y dylid penodi'r Cynghorydd Mike Kermode yn gadeirydd, eiliwyd gan Richard Polden. **Penderfynwyd**

**4. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a gynhaliwyd ar 12/9**
Cyflwynodd y Cynghorydd Mike Kermode y cofnodion. Byddwn yn ystyried noddi'r Llyfrgell yn 2025. Cytunwyd y dylai Mathew ofyn i Fran o Cydnerthedd Cymunedol CSDd ddod i'r cyfarfod nesaf i roi cyngor ar y syniad o sefydlu "Cyfeillion Llyfrgell Rhuddlan".

**5. Ymweliad gan Tîm Eiddo CSDd**
Cyflwynodd y Cynghorydd Mike Kermode ei grynodeb o'r cyfarfod (gweler ynghlwm).

**6. Ymweliad â Llyfrgell ac Amgueddfa'r Wyddgrug**
Trafodwyd yr ymweliad a nodwyd y pwyntiau canlynol:
a) Amgueddfa ddiddorol iawn i fyny'r grisiau o'r llyfrgell.
b) Mae teithiau ysgolion yn ymweld â'r llyfrgell a'r amgueddfa.
c) Datblygodd o arddangosfa am Daniel Owen i un sy'n edrych ar dreftadaeth yr Wyddgrug.
d) Un o'r prif wrthrychau yw darn o Fantell Aur yr Wyddgrug ac adluniad o'r fantell mewn cwpwrdd arddangos mawr.
e) Mae'r holl gypyrddau arddangos eraill yn rhai syml (4 math o gwpwrdd).
f) Yn cynnwys arddangosiadau sain /gweledol.
g) Roedd system aerdymheru ac awyru yn yr Amgueddfa.
h) Mae mewn adeilad wedi'i addasu nid adeilad newydd.

i) Roedd cael testun y gellir ei newid ar y byrddau arddangos yn syniad da iawn.
j) Cymysgedd dda o wrthrychau ac arddangosiadau sain/gweledol.
k) Defnyddiwyd cwmni allanol o Gaer i ddatblygu “edrychiad” yr amgueddfa.

**7. Trafodaethau eraill**

Glanhau’r ganolfan dreftadaeth arfaethedig, beth gellid ei arddangos, yr angen am ardal weithgareddau i blant a dyraniad cyllideb gan y cyngor i symud ymlaen yn 2025/26.

**8. Holiadur**

Roedd yr holiadur wedi’i gwblhau (gweler ynghlwm)

Dyddiad y cyfarfod nesaf, dydd Mawrth, 7 Ionawr 2025 am 9 y bore yn Llyfrgell Rhuddlan.

**Llofnodwyd ……………………………………………………………………Y Cynghorydd Mike Kermode**